Hawdd ei Ddeall

Sefydliad Cymunedol Cymru

# Cronfa Addysg Caerdydd


## Cyllid i unigolion



Mae’r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Sefydliad Cymunedol Cymru**. Mae’n fersiwn hawdd ei ddeall o ‘**Cronfa Addysg Caerdydd**’.

**2025**

# Am y llyfryn yma




Mae'r canllaw yma am **Gronfa Addysg Caerdydd**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **Ni**, mae hyn yn meddwl **Sefydliad Cymunedol Cymru**. Am fwy o wybodaeth neu gefnogaeth cysylltwch â:




**Gwefan:** communityfoundationwales.org.uk/cy/



**Ebost:** grants@communityfoundationwales.org.uk



**Ffôn:** 02920 379580

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthym ni beth yw eich barn am y fersiwn hawdd ei deall hon, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


**Nodau'r gronfa** .......... 4


**Faint rydych chi'n gallu gwneud cais amdano?** .......... 5

**Pwy sy'n gallu gwneud cais?** .......... 5

**Sut i wneud cais** .......... 6

**Cyllid am fwy na blwyddyn** .......... 9

# Nodau'r gronfa



Mae'r cyllid yma ar gyfer pobl yng Nghaerdydd.



Nod y gronfa yma ydy cefnogi dysgu a gwneud cymunedau'n gryfach.



Mae'r gronfa yma ar gyfer cefnogi pobl gydag addysg, a ffioedd cwrs neu weithgareddau. Mae'r gronfa yma yn gallu cael ei defnyddio ar gyfer:

- addysg ar gyfer dysgu gydol oes
- cefnogi unigolion gyda chostau addysg.




Mae angen i bobl ddangos sut maen nhw'n cyrraedd nodau'r gronfa. A pham maen nhw angen y gefnogaeth.

# Faint rydych chi'n gallu gwneud cais amdano?




Rydych chi'n gallu gwneud cais am hyd at 500 o bunnoedd y flwyddyn, am hyd at dair blynedd.

# Pwy sy'n gallu gwneud cais?




Pobl sy'n chwilio am addysg bellach sy'n byw yng Nghaerdydd am o leiaf 5 mlynedd.



Rydych chi'n gallu gwneud cais os nad ydy'r costau yn gallu cael eu talu mewn ffordd arall.



Mae pobl yn llai tebygol o gael grant os ydyn nhw wedi cael un o'r blaen.

# Sut i wneud cais




Mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen gais ar-lein. Mae hwn ar ein gwefan: communityfoundationwales.org.uk/cy/grants/cronfa-addysg-caerdydd-unigolion

**Pethau pwysig i'w gwybod:**



- Dydyn ni **ddim yn gallu** talu am unrhyw beth sydd wedi digwydd o'r blaen:



  - Rydyn ni yn anfon llythyr cynnig i chi.




  - Rydych chi'n anfon copi wedi'i lofnodi o'r telerau ac amodau i ni.




- Mae'n rhaid i chi wario'r holl arian o fewn 1 flwyddyn i dderbyn ein llythyr cynnig.



- Rhaid i chi ddangos yn glir yn eich cais pam mae angen yr arian yma.




Fe fyddwn ni'n gofyn am brawf eich bod yn ymuno â chwrs cyn i ni roi'r arian.




Os ydych chi'n gwneud cais am addysg bellach, fe fyddwn ni angen prawf eto. A rhywfaint o wybodaeth arall am sut mae pethau'n mynd.



Mae angen i bobl roi enw rhywun i ysgrifennu geirda I chi. Mae hyn yn meddwl rhywun  fydd yn dweud mwy wrthyn ni amdanoch chi.



Mae'r canolwr yn gallu bod yn rhywun fel athro neu rhywun sy'n eich adnabod yn dda ond sydd ddim yn perthyn I chi. A dim yn byw gyda chi.




Fe fyddwn ni'n cysylltu â nhw felly rhowch eu manylion cyswllt i ni. A ggwnewch yn siŵr eu bod yn hapus i roi geirda i chi.

# Cyllid am fwy na blwyddyn




Rydych chi'n gallu gwneud cais am hyd at 3 blynedd o gyllid o'r gronfa yma. Rydyn ni'n ei alw'n **Gyllid Blwyddyn Lluosog**.



Rydych chi'n gallu parhau i ddefnyddio'r cyllid yma ar gyfer prosiectau 1 flwyddyn. Ac ar gyfer prynu eitemau bach a phethau rydych chi eu hangen sy'n bodloni nodau'r gronfa hon.




Os ydych chi eisiau cyllid am 3 blynedd, rhaid i chi ddangos pam mae rydych chi ei angen yn eich ffurflen gais.




Os na fyddwch chi yn derbyn cyllid 3 blynedd, efallai y byddwch chi yn dal i gael cyllid am flwyddyn.